
PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 11.04.19

Yn bresennol: Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Edgar Wyn Owen, Dafydd Owen, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

Hefyd yn Bresennol: Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Sïon Jones a Jason Wayne Parry,

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 o Ragfyr 2018 fel rhai cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.35am a daeth i ben am 10:40am